**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/3378/22

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru/ Welsh Parliament
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddFinance@senedd.cymru

17 Tachwedd 2022

Annwyl Bwyllgor Cyllid,

Diolch am eich adroddiad ynghylch y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU.

Rwy'n gwerthfawrogi'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud wrth graffu ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil hwn, a sylwaf ein bod yn rhannu nifer o'r un pryderon.

Credaf y gallai'r Banc chwarae rôl bwysig wrth gynyddu a chyflymu buddsoddiadau i gefnogi'r broses o drosglwyddo Cymru i sero net. Rydym felly wedi bod wrthi'n ymgysylltu â Llywodraeth y DU i gyflwyno gwelliannau synhwyrol i'r Bil i sicrhau bod datganoli yn cael ei barchu'n llawn.

Rwy'n cytuno â chasgliad 1 a 2 yn eich Adroddiad, sef bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd, ac y dylid diwygio'r Bil i roi rôl ddiffiniedig i Weinidogion Cymru o ran llywodraethu'r Banc.

Rwy'n nodi argymhelliad 1 y dylai unrhyw gorff trawsffiniol a sefydlir gan Fil y DU ac sy'n gweithredu o fewn meysydd datganoledig roi pwerau cyfatebol i Lywodraeth Cymru a/neu'r Senedd. Rydym yn ceisio gwelliannau i'r Bil a fydd yn rhoi rôl ddiffiniedig i Lywodraeth Cymru a/neu'r Senedd o fewn y Bil hwn.

Rwy'n nodi argymhelliad 2 sy'n datgan y dylai Llywodraeth Cymru rannu gwelliannau penodol y mae'n gofyn amdanynt mewn perthynas â'r Bil cyn gynted â phosibl. Gan fod y trafodaethau'n parhau, yn anffodus ni allaf fod yn fwy penodol am union natur y gwelliannau ar hyn o bryd, ac eithrio dweud ein bod yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad. Fodd bynnag, bydd unrhyw welliannau yn arwain at Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall a chyfle i'r Pwyllgor adrodd ymhellach ar y mater.

Yn ystod y misoedd diwethaf mae ansefydlogrwydd sylweddol wedi bod yn San Steffan sydd wedi arwain at nifer mawr o newidiadau i Weinidogion Trysorlys ei Fawrhydi ac mae hynny wedi llesteirio'r cynnydd a wnawn wrth drafod unrhyw gytundeb posibl. Bu oedi hefyd i daith y Bil drwy Dŷ'r Cyffredin oherwydd y newidiadau i gyfrifoldebau Gweinidogol y DU, a chyhoeddiadau eraill fel Cynllun Twf 2022. Rwy'n deall y bydd y Bil yn awr yn symud ymlaen i'r Cyfnod Pwyllgor ar 22 Tachwedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac i geisio gwelliannau priodol sy'n parchu datganoli.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government